Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr Bryn Parry-Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

20 Mehefin 2014

Annwyl Mr Parry-Jones

**Ymweliad monitro gan Estyn, 3-6 Mehefin 2014**

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Hydref 2012, nodwyd bod angen mesurau arbennig ar yr awdurdod. Yn sgil hynny, cytunwyd ar gynllun monitro gyda'ch arolygwyr cyswllt yn Estyn, a chynhaliwyd yr ymweliad monitro cyntaf o 6 i 8 Tachwedd 2013. Cynhaliwyd yr ail ymweliad monitro, sef yr ymweliad terfynol, o 3 i 6 Mehefin 2014. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau terfynol y gwaith monitro ôl-arolygiad gan Estyn.

Ym Mehefin 2014, arweiniodd Mererid Stone AEM dîm o bedwar arolygydd i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn y pedwar argymhelliad a oedd yn weddill o'r saith argymhelliad a ddeilliodd o'r arolygiad yn Hydref 2012. Hefyd, bu'r tîm yn ystyried perfformiad cyffredinol yr awdurdod yn erbyn ei gynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr, uwch swyddogion a phenaethiaid. Bu arolygwyr yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed ar bob un o argymhellion Estyn.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd y tîm eu canfyddiadau wrthych chi, fel y prif weithredwr, ac i aelodau'r cyngor, aelodau etholedig allweddol ac uwch swyddogion.

Bernir bod Cyngor Sir Penfro wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion a ddeilliodd o'r arolygiad yn Hydref 2012. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen mesurau arbennig ar yr awdurdod lleol mwyach ac mae'n ei dynnu o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Yn ystod ac yn union wedi'r arolygiad yn Hydref 2012, gweithredodd yr awdurdod yn gyflym ac yn bendant i gynllunio ar gyfer newid a gwnaed gwelliannau sylweddol o ganlyniad. Gwnaed penderfyniadau anodd a sensitif gan y prif weithredwr, yr arweinydd ac uwch swyddogion i gael gwared ar rwystrau rhag cynnydd er mwyn ysgogi'r gwelliant angenrheidiol.

Rhoddwyd y penderfyniadau hyn ar waith yn ofalus ac maent wedi arwain at ailstrwythuro Gwasanaeth Plant ac Ysgolion Sir Benfro yn llwyr. Mae tîm rheoli newydd yn cydweithio'n agos fel grŵp cydlynol i ymgorffori newid. Mae'r awdurdod yn ymgysylltu'n dda â'r consortiwm rhanbarthol erbyn hyn. Mae trefniadau gweithio ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol wedi cryfhau gallu'r awdurdod i herio a chefnogi ei ysgolion.

Bu newid sylweddol mewn diwylliant yn yr awdurdod, a ddangosir trwy ddidwylledd a thryloywder gwell. Caiff gweledigaeth a disgwyliadau'r awdurdod ar gyfer ei wasanaethau addysg eu cyfleu'n glir i ysgolion a phartneriaid eraill. Mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi dangos parodrwydd i weithio'n adeiladol gyda chyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio i nodi diffygion a mynd i'r afael â nhw. Dangosant ymrwymiad cadarn i weithredu newid ac mae ganddynt awydd i wella ymhellach.

**Argymhelliad 1**
**Parhau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer diogelu ac aelodau etholedig a swyddogion yn eu goruchwylio, yn cynnwys trin achosion o honiadau ynghylch cam-drin proffesiynol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Er mis Hydref 2012, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd rhagorol yn trawsnewid trefniadau ar gyfer diogelu ym mhob un o'i wasanaethau addysg a'i ysgolion.

Mae arweinyddiaeth gref a gweledigaeth glir aelodau etholedig ac uwch swyddogion allweddol yn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn ganolog i drefniadau diogelu cadarn yr awdurdod. Mae aelodau etholedig yn cymryd rhan yn llawn ac yn ymrwymo'n llwyr i'r broses hon. Gweithiodd aelodau etholedig a'r cyfarwyddwr plant ac ysgolion gyda'i gilydd yn dda i ddatrys anawsterau o ran recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn wedi galluogi swyddogion i roi trefniadau diogelu gwell ar waith, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer delio ag achosion o honiadau ynghylch cam-drin proffesiynol. Mae ychwanegu 'Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol' wedi gwella ymhellach waith yr awdurdod yn goruchwylio honiadau ynghylch cam-drin proffesiynol ac atebolrwydd am ymateb yn briodol.

Mae'r awdurdod wedi creu 'Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd Integredig' i ddarparu strwythurau a systemau cadarn. Mae'r gwasanaeth newydd hwn yn gwneud yn siŵr bod dull cyson o ddiogelu plant a phobl ifanc ac mae'n golygu nad yw systemau'n dibynnu ar bresenoldeb unrhyw unigolyn penodol mwyach i'w rhoi ar

waith yn effeithiol.  Ceir canllawiau clir i fynd i'r afael â materion diogelu mewn modd amserol, effeithlon a chymesur.

Mae rhannu gwybodaeth ar bob lefel yn gryfder sylweddol yn y system newydd. Mae'r pennaeth gwasanaethau plant yn llwyr ymwybodol o'r holl faterion diogelu presennol yn yr awdurdod a'r cynnydd a wneir i ddatrys y rhain.  Mae staff yn deall yn glir bod y swyddog dynodedig ar gyfer diogelu yn gweithredu fel un pwynt cyswllt a chyngor ar gyfer unrhyw atgyfeiriad.  Mae'r swyddog adnoddau dynol yn y gwasanaeth integredig yn rheoli'r modd y cynhelir yr holl gyfarfodydd strategaeth ynghylch cam-drin proffesiynol, nid yn unig y rhai ar gyfer achosion yn gysylltiedig ag addysg.  Mae system electronig yn monitro ac yn cofnodi'r holl gamau yn y broses ymchwilio ac yn tynnu sylw swyddogion at unrhyw wybodaeth a gedwir am unigolion, er enghraifft gan y gwasanaethau cymdeithasol.  Mae ystod dda o wiriadau yn eu lle, fel y cyfarfod strategaeth, cwblhau asesiadau risg a sicrhau ansawdd annibynnol ar bob achos trwy archwiliad mewnol.

Caiff ysgolion gymorth o ansawdd uchel erbyn hyn, sy'n cynnwys canllawiau clir ar gyfer pob agwedd ar ddiogelu.  Mae pob ysgol wedi cwblhau gwiriadau iechyd yr awdurdod ar gyfer diogelu.  Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad trylwyr gan swyddogion o'r holl drefniadau diogelu yn yr ysgol ac agweddau ehangach ar les.  O ganlyniad, mae staff ysgolion a chyrff llywodraethol yn fwy ymwybodol o sut i ddelio'n briodol â materion diogelu, ac mae ganddynt yr hyder i gymryd cyfrifoldeb am unrhyw faterion o'r fath sy'n codi.  Nid dyma fel yr oedd hi yn y gorffennol.  Mae ysgolion yn trafod unrhyw bryderon ynghylch diogelu gyda'r awdurdod yn agored erbyn hyn, gan wybod y byddant yn cael eu trin o ddifrif ac y bydd ymchwiliad trylwyr o ganlyniad, yn unol â'r arweiniad newydd.  Mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn briodol ag unrhyw faterion a amlygwyd gan y gwiriadau iechyd ac mae'n cynllunio ar gyfer ail gylch y gwiriadau hyn.  Mae'r arfer dda wrth roi'r gwiriadau iechyd hyn ar waith bellach wedi cael ei lledaenu ymhlith ysgolion Sir Gaerfyrddin trwy waith y ganolfan ranbarthol.  I gryfhau ymhellach y cymorth i ysgolion, mae'r awdurdod wrthi'n datblygu pecyn cymorth hunanarfarnu yn ymwneud â diogelu ar gyfer ysgolion.

Mae'r pwyllgor trosolwg a chraffu ar ddiogelu yn cynnig cymorth a her dda i'r aelod cabinet ar gyfer diogelu ac i swyddogion.  Mae'r pwyllgor wedi goruchwylio sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i fwrw golwg ar recriwtio diogel.  Arweiniodd hyn at roi gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer pob llywodraethwr ysgol a chyfle gwell i fanteisio ar hyfforddiant o ansawdd da i ddelio'n effeithiol ag achosion o ymddygiad anodd.  Yn ychwanegol, mae'r awdurdod wedi darparu arweiniad clir i wella'r broses gyfweld a phenodi ar gyfer pob aelod newydd o staff ysgolion.  Mae'r awdurdod yn cynnal cofrestr ganolog sy'n cofnodi manylion am wiriadau unigol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dyddiadau a manylion am hyfforddiant diogelu y mae pob aelod o staff wedi ymgymryd ag ef.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLIDP) iau i gydweithio â'r bwrdd BLIDP statudol.  Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed, gael dweud eu dweud am faterion sy'n ymwneud yn benodol â nhw.  Rhoddir pwys mawr ar lais plant yn yr awdurdod ac mae'r Cyngor wedi derbyn yn ffurfiol Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef dim ond yr ail awdurdod lleol yng Nghymru i wneud hyn.

O ganlyniad i'r gwelliannau i drefniadau diogelu yn yr awdurdod, mae'r pennaeth adnoddau dynol yn awr yn cymryd rôl flaenllaw mewn gweithgor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i lunio arweiniad arfer dda ar recriwtio diogel at ddefnydd awdurdodau lleol eraill ledled Cymru.

Mae'r cyfarwyddwr plant ac ysgolion yn cadeirio'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol i'r awdurdod gymharu ei arfer diogelu ag awdurdodau eraill ar draws y rhanbarth trwy herio gan gymheiriaid a defnyddio meincnodau.

Mae arferion diogelu yn yr awdurdod yn gryf iawn ac mae'r awdurdod yn rhannu ei arfer gydag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru.

**Argymhelliad 2**
**Parhau i weithio i godi safonau ym mhob cyfnod allweddol ac ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ar ôl yr arolygiad yn 2012, fe wnaeth yr awdurdod, ar y cyd â phartneriaid ar draws y rhanbarth, ddatblygu strategaeth gydlynol i wella deilliannau i'r dysgwyr yn ei ysgolion. Erbyn hyn, mae diwylliant o ddidwylledd a thryloywder rhwng yr awdurdod a'i ysgolion a mwy o barodrwydd i herio a chael eu herio.

Mae arweinwyr system yn deall perfformiad eu hysgolion yn dda ac mae trafodaethau gydag ysgolion yn canolbwyntio'n gryf ar safonau. Mae swyddogion yn dadansoddi ystod dda o ddata yn drylwyr ac yn defnyddio pob dadansoddiad perthnasol, gan gynnwys data manwl am berfformiad pob disgybl, i herio tanberfformiad ac i gynllunio ymyriadau effeithiol. Defnyddir data yn dda i wella disgwyliadau athrawon o'u disgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf abl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i sicrhau bod targedau cyrhaeddiad yn ddigon heriol.

Mae swyddogion yn cyflawni rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau ag ysgolion, sy'n canolbwyntio'n briodol ar yr ysgolion hynny sydd angen gwella fwyaf. Mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys adolygiad trylwyr o safonau yn ystod yr hydref, yna craffu manwl ar waith disgyblion i fonitro safonau yn yr ystafell ddosbarth. Mae uwch swyddogion hefyd yn cynnal 'Ymweliad Her' ag ysgolion uwchradd yn ystod y gwanwyn i olrhain cynnydd yn erbyn targedau cytûn yng nghyfnod allweddol 4 ac i ddwyn timau arweinyddiaeth i gyfrif am welliant. Mae penaethiaid yn glir ynghylch y blaenoriaethau y maent yn gweithio tuag atynt a'u cyfrifoldebau o ran codi safonau.

Mae uwch swyddogion yn cydnabod yn briodol fod yn rhaid i ansawdd yr addysgu wella mewn llawer o ysgolion er mwyn i welliannau mewn perfformiad fod yn gynaliadwy. Mae swyddogion wedi cyflwyno amrywiaeth o weithrediadau i herio a chynorthwyo uwch arweinwyr ac athrawon dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth effeithiol yn y dosbarth, defnydd adeiladol o ymarferwyr arweiniol a gweithgorau i nodi arfer orau. Mae'r strategaeth addysgu a dysgu yn cael ei rhannu ar draws y rhanbarth.

Mae'r awdurdod wedi cyflwyno cyfres o ymyriadau trwyadl i gymedroli a herio asesiadau athrawon yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd defnyddiol ar draws yr awdurdod i rannu disgwyliadau clir gydag ysgolion ac i gryfhau arferion safoni a chymedroli. Yn ogystal, fe wnaeth swyddogion gymharu asesiadau athrawon yn systematig â deilliannau o'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar gyfer pob disgybl, a herio ysgolion lle y gwnaethant nodi anghysondebau posibl. Hefyd, defnyddiwyd y data hwn i nodi a chefnogi disgyblion unigol sy'n tanberfformio o gymharu â disgwyliadau ar sail sgorau wedi'u safoni.

Mae'r awdurdod wedi gweithredu strategaethau cynhwysfawr ar gyfer gwelliant yng nghyfnodau allweddol 2 a 4. Yn 2013, dirywiodd perfformiad yn y cyfnodau allweddol hyn yn Sir Benfro. Digwyddodd hyn oherwydd bod perfformiad mewn Saesneg a mathemateg naill ai heb wella neu wedi dirywio. Fe wnaeth yr awdurdod nodi'r ysgolion hynny lle y cafwyd tanberfformio yn y ddau bwnc yn gyflym a rhoi ymyriadau ar waith. Mae hyn yn cynnwys cymorth da ar gyfer y cwricwlwm gan arweinwyr systemau pwnc a chyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd i wella medrau arweinwyr pwnc. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae'r addysgu a'r cynllunio yn gwella ac mae gan athrawon ddisgwyliadau uwch ar gyfer eu disgyblion a defnyddiant ddata'n fwy effeithiol.

Mae ffigurau dros dro ar gyfer 2014 yn dangos bod perfformiad wedi gwella dros ddau bwynt canran yn y Cyfnod Sylfaen a thros dri phwynt canran yng nghyfnod allweddol 2. Dyma gynnydd uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. Mae canran y disgyblion sy'n ennill lefel 5 wedi codi ym mhob pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 3, mae canran y disgyblion sy'n ennill y lefelau uwch wedi gwella hefyd at ei gilydd.

Nid yw canlyniadau cyfnod allweddol 4 ar gyfer 2014 yn hysbys eto, felly mae'n rhy gynnar i wybod a yw strategaethau gwella'r awdurdod wedi gwella deilliannau'n sylweddol mewn arholiadau allanol.

**Argymhelliad 3**
**Monitro a herio'r holl ysgolion a defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod wedi gwella'n sylweddol drylwyredd ei her a'i gymorth i'w ysgolion. Mae wedi cydweithio'n dda gyda'i bartneriaid rhanbarthol, yn enwedig y ganolfan gwella ysgolion, er mwyn gwneud gwelliannau ar gyflymder da.

Mae'r awdurdod wedi cryfhau'r tîm arweinwyr system yn sylweddol. Mae'r swyddogion hyn yn deall eu rôl yn dda erbyn hyn ac mae ganddynt ganllawiau clir i ategu eu gwaith. Mae'r prif arweinydd system wedi cyflwyno prosesau mwyfwy effeithiol i ddatblygu medrau swyddogion ac i sicrhau ansawdd eu gwaith. O ganlyniad, gall rheolwyr nodi unrhyw danberfformio a mynd i'r afael â hynny'n gyflym, ac mae cysondeb yr her i ysgolion yn gwella. Hefyd, mae'r awdurdod yn comisiynu cymorth arbenigol priodol i ychwanegu gallu ac arbenigedd.

Erbyn hyn, mae arweinwyr system yn defnyddio'r fframwaith rhanbarthol yn fwy trylwyr i gategoreiddio ysgolion yn ôl risg ac i dargedu ymyriadau priodol, er bod barnau ar arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ychydig ysgolion yn rhy hael o hyd. Mae arweinwyr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gategori eu hysgol, y cymorth y byddant yn ei gael o ganlyniad a'u rôl yn ysgogi gwelliant. Hefyd, mae arweinwyr system pwnc yn categoreiddio adrannau Cymraeg mamiaith, Saesneg a mathemateg mewn ysgolion uwchradd yn drylwyr er mwyn dwyn arweinwyr canol i gyfrif.

Mae ansawdd y cofnodion ysgrifenedig o adolygiadau ac ymweliadau eraill ag ysgolion wedi gwella'n sylweddol. At ei gilydd, mae'r nodiadau hyn yn arfarnol, yn nodi meysydd i'w gwella'n glir ac yn gosod targedau ac amserlenni priodol. Cyflwynant gamau gweithredu ar gyfer yr ysgol a'r awdurdod er mwyn ysgogi gwelliant. Lle y bo ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol yn dilyn arolygiad gan Estyn, mae nodiadau ar yr ymweliad yn arfarnu cynnydd yr ysgol wrth fynd i'r afael ag argymhellion yn glir. Mae ansawdd yr adroddiadau a ddarperir cyn arolygiad yn gwella ac maent yn cyfateb yn gynyddol i farnau'r tîm arolygu; er, mewn arolygiad uwchradd diweddar, ni chafodd yr holl feysydd i'w gwella eu nodi.

Mae gan yr awdurdod drefniadau mwyfwy trylwyr i ddwyn ysgolion i gyfrif am welliant. Mae'r holl ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd sy'n tanberfformio yn cael eu herio'n gadarn gan y pwyllgor trosolwg a chraffu plant a theuluoedd. Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod wedi cyflwyno 'Grwpiau Monitro Teuluoedd o Ysgolion', lle mae'r holl benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr ym mhob clwstwr yn cwrdd ag uwch swyddogion ac aelodau etholedig allweddol i drafod perfformiad eu hysgolion. Mae hyn yn sicrhau bod cadeiryddion cyrff llywodraethol yn deall nid yn unig berfformiad eu hysgol eu hunain yn dda ond hefyd sut mae'n cymharu ag eraill yn y clwstwr.

Mae ysgolion y nodwyd eu bod yn achosi pryder yn meddu ar gynlluniau gweithredu manwl sy'n amlinellu'n glir y camau i'w cymryd. Bydd y cynlluniau hyn, a chynnydd yr ysgol o ran eu gweithredu, bellach yn cael eu monitro a'u herio'n drylwyr gan uwch swyddogion yn ogystal â'r arweinydd system. Mae ysgolion y mae Estyn wedi nodi bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arnynt yn cael eu monitro a'u cefnogi'n drylwyr. Cynhelir byrddau gwella misol ar gyfer dwy ysgol uwchradd yn y categori gwelliant sylweddol er mwyn gyrru gwelliant yn barhaus. Mae uwch swyddogion yn chwarae rhan gyson yn yr her i'r ysgolion hyn. Mae'r holl ysgolion cynradd a roddwyd yn y categorïau hyn wedi cael eu tynnu o'r categorïau gweithgarwch dilynol gan Estyn erbyn hyn.

Fwyfwy, mae'r awdurdod yn defnyddio'i bwerau llawn i sicrhau bod ysgolion sy'n tanberfformio yn gwella'n ddigon cyflym. Mae tair ysgol wedi cael rhybuddion i wella a, lle bo'r angen, mae llywodraethwyr ychwanegol wedi'u penodi yn yr ysgolion hyn. Mae'r cyfarwyddwr plant ac ysgolion ac uwch swyddogion eraill wedi mynd i'r afael yn gadarn â materion arweinyddiaeth mewn ysgolion ac wedi gwneud penderfyniadau anodd i ddelio â thanberfformio. Mae'r awdurdod wedi nodi nifer o ysgolion lle y mae ymyrraeth gan swyddogion eisoes wedi gwella'r ysgol yn ddigonol fel na fyddant yn destun pryder adeg arolygiad.

Mae'r awdurdod wedi dechrau gweithredu rhaglen i wella ansawdd rheolaeth ganol mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn wedi'i dargedu yn y lle cyntaf at bynciau craidd er mwyn cydnabod yr angen i wella safonau yn y meysydd hyn. Mae swyddogion wedi darparu hyfforddiant gwerthfawr i lywodraethwyr i'w helpu i ddeall perfformiad eu hysgol. Mae arweinwyr system yn mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethol mewn ysgolion blaenoriaeth. Maent yn darparu adroddiadau ysgrifenedig i'r corff llywodraethol hefyd. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth well o'r materion sy'n wynebu eu hysgolion a'r meysydd y mae angen eu gwella.

**Argymhelliad 4**
**Rhoi strategaeth briodol ar waith i nodi a bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod wedi ailddiffinio'i egwyddorion ar gyfer trefniadaeth ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r egwyddorion arweiniol hyn, a'r meini prawf arfarnu cysylltiedig, wedi arwain at ymagwedd gadarnach a rhesymeg ar gyfer newid ar sail tystiolaeth. Mae hyn yn rhoi sail werthfawr i'r cyngor ar gyfer dod i gasgliadau gwybodus am ansawdd y ddarpariaeth a'r angen i ychwanegu, dileu neu adleoli lleoedd ysgol. Er mai megis dechrau cael ei gweithredu y mae'r ymagwedd hon, fe'i defnyddiwyd yn briodol gan swyddogion wrth ddatblygu cynigion diweddar ynghylch trefniadaeth ysgolion.

Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi gwneud penderfyniadau anodd sydd wedi arwain at nifer o ymgynghoriadau ynghylch trefniadaeth ysgolion, a chymeradwyo uno ysgolion, cau ysgolion ac adeiladu ysgolion newydd. Mae swyddogion wedi rheoli'r prosiectau unigol hyn yn effeithiol ac wedi ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid fel penaethiaid, llywodraethwyr, rhieni a'r cyhoedd yn ehangach.

Trwy adolygu ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae strategaeth yr awdurdod i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir yn fwy cadarn. Mae'r strategaeth hon yn ystyriaeth annatod yn yr ymgynghoriadau a'r cynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion. Enghraifft o hyn yw'r cytundeb i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ne'r sir i fodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal benodol honno. Mae'r awdurdod wedi dechrau ymgynghori ar gynigion sy'n cynnwys cyfleoedd i gynyddu'r cyfle am ddysgu cyfrwng Cymraeg mewn mannau eraill, fel yn yr ymgynghoriad rhagarweiniol yn ardal Tyddewi. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gweithredu'r strategaeth wedi bod yn arafach yn y sector uwchradd.

Dros y 12 mis diwethaf, mae fforwm addysg cyfrwng Cymraeg, dan gadeiryddiaeth yr aelod cabinet ar gyfer y Gymraeg, wedi goruchwylio'n briodol y gwaith o weithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi mesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg trwy arolygon o rieni mewn dwy ardal benodol. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer dechrau nodi lefel yr angen am ddiwygio'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd hyn. Disgwylir i ganlyniadau'r arolygon hyn gael eu cyflwyno i'r pwyllgor craffu o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

Yn unol â’r amcanion yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae’r awdurdod wedi trefnu adolygiad ehangach o’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd ar gyfer yr hydref.  Bydd cyfarfod llawn o’r cyngor yn ystyried canlyniad yr adolygiad hwn er mwyn cynllunio at y dyfodol.  Fodd bynnag, hyd nes bod canlyniadau’r adolygiad hwn yn cael eu dadansoddi, nid yw’r awdurdod yn gwybod a all fodloni’r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd yn llawn.

**Argymhelliad 5**
**Parhau i wella’r trefniadau craffu er mwyn i aelodau etholedig allu herio perfformiad gwasanaethau’r awdurdod, a’i ysgolion a’i drefniadau diogelu**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Bu gwelliant sylweddol yn effeithiolrwydd y craffu gan aelodau etholedig yn y pwyllgor diogelu a’r pwyllgor plant a theuluoedd.  Mae aelodau yn cynnig her gadarn i’r arweinydd a’r cabinet ac yn eu dwyn i gyfrif yn dda.  Maent yn wybodus a thrylwyr iawn wrth holi swyddogion ac aelodau gweithredol.  Mae mwy o ffocws i gyfarfodydd, llai o gyflwyniadau a mwy o amser ar gyfer dadansoddi a thrafod.

Mae swyddogion cymorth craffu yn gweithio’n agos gydag aelodau pwyllgorau i wneud yn siŵr eu bod yn deall yn llawn y materion sydd ger eu bron.  Mae aelodau eisoes wedi elwa ar ystod o hyfforddiant priodol i wella eu medrau.  Mae hyn wedi gwella eu hyder a’u gallu i gymryd rhan yn llawn yn y broses graffu.  Mae mwy o hyfforddiant yn yr arfaeth erbyn hyn i ymateb i arolwg defnyddiol o’u hanghenion.

Mae’r pwyllgor craffu ar ddiogelu wedi gwneud cyfraniad cryf at wella arferion diogelu yn y gwasanaeth plant ac ysgolion.  Mae’n dechrau dwyn gwasanaethau a phartneriaid eraill i gyfrif am eu polisïau a’u gweithdrefnau diogelu erbyn hyn.

Mae’r cyfarwyddwr plant ac ysgolion yn delio â chraffu yn agored a thryloyw.  Mae penaethiaid gwasanaethau a swyddogion eraill yn cynorthwyo’r pwyllgorau’n dda hefyd.  O ganlyniad, mae’r wybodaeth a roddir i aelodau wedi gwella.  Mae’r pwyllgor plant a theuluoedd yn awr yn cael gwybodaeth am berfformiad am bob ysgol sy’n galluogi iddynt nodi’r rhai sy’n tanberfformio.  Maent wedi cael hyfforddiant ar sut i ddadansoddi data ar ysgolion oddi wrth swyddogion ac yn gallu herio a dwyn arweinwyr ysgol i gyfrif am berfformiad eu hysgol.  Mae swyddogion yn dwyn adroddiadau cynnydd o ysgolion sy’n achosi pryder ger bron y pwyllgor.  Yn ychwanegol, gelwir ar benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol i’r pwyllgor craffu i gyflwyno eu hadroddiadau arolygu ac esbonio eu cynlluniau ar gyfer gwella.  Mae’r berthynas waith gref y mae’r awdurdod yn ei datblygu gyda’i ysgolion wedi cyfrannu at lwyddiant y dull hwn.

Cafodd aelodau eu cynnwys yn dda mewn datblygu cynllun integredig sengl y cyngor a hefyd y cynllun gweithredu i fynd i’r afael â gwendidau a nodwyd yn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg.

Mae cadeiryddion y pwyllgor diogelu a’r pwyllgor plant a theuluoedd yn cydweithio’n dda i sicrhau cysondeb a nodi cyfleoedd ar gyfer craffu ar y cyd.  Mewn cyfarfod ar y cyd o’r ddau bwyllgor craffu, cafodd yr arweinydd ei ddwyn i gyfrif a’i herio’n drylwyr

am faterion a godwyd mewn adroddiadau beirniadol gan arolygiaethau. Mae aelodau'n gwneud defnydd effeithiol o grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n dod ag argymhellion clir i'r cabinet ac sydd wedi dylanwadu ar newid yn llwyddiannus. Gwelir enghreifftiau o hyn wrth roi polisïau recriwtio mwy diogel ar waith ac wrth wella recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol.

Mae'r arfer dda yn y pwyllgorau hyn yn awr yn cael ei defnyddio i wella craffu yn ehangach ar draws y cyngor. Mae aelodau yn ceisio sicrhau gwelliant pellach, er enghraifft, cymryd rhan yn gynharach yn y broses gwneud penderfyniadau.

**Argymhelliad 6**
**Creu un broses gynllunio gynhwysfawr a chadarn sy'n nodi lefelau priodol o atebolrwydd a rheoli perfformiad, a rhoi'r broses ar waith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gwaith y tîm cymorth 'Partneriaeth a Chraffu' canolog yn cynnig dull clir a chyson ar gyfer yr holl gynllunio corfforaethol a chynllunio partneriaeth. Sefydlwyd y tîm hwn i ddechrau i sicrhau systemau effeithiol ar gyfer y cynllun integredig sengl lleol, ond mae bellach yn dylanwadu ar drefniadau cynllunio strategol yn ehangach, gan gynnwys meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf. Mae'r tîm yn gweithio'n uniongyrchol i'r dirprwy brif weithredwr ac yn rhoi cymorth uwch swyddogion i bartneriaethau strategol allweddol. Mae hyn yn dangos yn dda y gwerth y mae'r awdurdod yn ei roi ar y partneriaethau hynny sy'n gysylltiedig â'r cynllun integredig sengl. Mae'r tîm hefyd yn gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ar gyfer rheolwyr corfforaethol ac aelodau etholedig yn cael ei rheoli'n ganolog. O ganlyniad, mae gan aelodau etholedig hyder yn nibynadwyedd y wybodaeth a gânt trwy'r tîm o feysydd gwasanaeth a phartneriaid.

Erbyn hyn, mae'r tîm wedi gwella trefniadau cynllunio strategol ymhellach. Mae'r cynllun integredig sengl wedi'i adolygu ac mae mwy o ffocws gan weithgarwch partneriaeth. O ganlyniad, mae gwaith partneriaeth yn canolbwyntio ar ryw bedwar maes lle y gall sefydliadau gael yr effaith fwyaf trwy gydweithio, er enghraifft gostwng cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).

Mae'r awdurdod wedi gwella strwythur ei gynllunio strategol ers yr arolygiad yn 2012. Ceir hierarchaeth glir erbyn hyn o gynlluniau o gynllun integredig sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, trwy gynllun gwella, cynlluniau gwella gwasanaethau a chynlluniau tîm y cyngor. Mae'r cynllun integredig sengl yn alinio'n dda hefyd â chynllun busnes y consortiwm addysg rhanbarthol. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu strwythur cydlynol ar gyfer gosod amcanion a thargedau sy'n cyfrannu at y system rheoli perfformiad newydd ar gyfer monitro cynnydd. Mae amcanion arfarniadau unigol o berfformiad yn cysylltu'n dda â'r amcanion sydd wedi'u hamlinellu mewn cynlluniau gwella gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau tîm bob amser yn cynnwys targedau mesuradwy a meini prawf llwyddiant addas.

Mae system rheoli perfformiad gorfforaethol briodol wedi'i datblygu. Cyflwynwyd fframwaith buddiol ar gyfer rheoli perfformiad ym Mai 2013. Cafodd hyn ei brofi o fewn y tîm cymorth 'Partneriaeth a Chraffu' yn ogystal a thimoedd corfforaethol eraill ac mae bellach wedi'i gyflwyno ar draws yr awdurdod. Mae rheolwyr wedi cael

hyfforddiant priodol ar y broses rheoli perfformiad ac maent bellach yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau prosesau da ac effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad.  Mae'r dull cyson hwn o reoli perfformiad wedi'i ddefnyddio'n dda i nodi meysydd tanberfformio a mynd i'r afael â nhw.

**Argymhelliad 7**
**Cryfhau hunanarfarnu a chynllunio i arfarnu'n fwy systematig y modd y mae gwasanaethau a gwaith partneriaeth yn gwella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r awdurdod wedi gwella'n sylweddol ei ddull o hunanarfarnu, gan ddatblygu diwylliant o ddidwylledd a gonestrwydd ynghylch perfformiad.  Mae'r cyfarwyddwr plant ac ysgolion, ynghyd â'i uwch dîm arwain, yn arwain trwy esiampl gan hunanfeirniadu perfformiad yn y gyfarwyddiaeth yn drylwyr a gwahodd her adeiladol ynghylch eu perfformiad.  Disgwylir i swyddogion, gan gynnwys y rhai mewn gwasanaethau wedi'u comisiynu, fabwysiadu dull tebyg yn eu gwaith ac mae uwch swyddogion yn rhoi cefnogaeth lawn iddynt i wneud hynny.

Mae gan yr awdurdod wybodaeth dda i ategu hunanarfarnu.  Mae'r rhan fwyaf o swyddogion yn craffu ar ddata am berfformiad a gwybodaeth arall yn drylwyr i arfarnu effaith camau gweithredu penodol a pherfformiad meysydd gwasanaeth yn effeithiol.  O ganlyniad, mae rheolwyr yn cymryd camau lliniarol priodol lle bo'r angen ac mae ganddynt ffocws addas wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.  Mae hunanarfarnu parhaus yn digwydd yn effeithiol ar lefel uwch swyddogion yn ogystal ag ar lefel gwasanaeth.

Mae uwch arweinwyr wedi gweithio'n effeithiol gyda swyddogion i wella gwybodaeth yr awdurdod am ei ysgolion, gan gynnwys yr effaith y mae cymorth, ymyrraeth a her allanol yn ei chael mewn ysgolion.  Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i arfarnu perfformiad gwasanaethau a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r awdurdod wedi dechrau cylch hunanarfarnu blynyddol newydd.  Er nad yw'r cylch cyntaf wedi'i gwblhau'n llawn eto, mae'r awdurdod wedi llunio arfarniad defnyddiol o bob agwedd ar wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc.  Mae'r holl dimau yn y gyfarwyddiaeth wedi cyfrannu'n briodol at ddatblygu'r adroddiad hwn.  Hyd yn oed ar ei ffurf ddrafft bresennol, mae'n welliant clir o gymharu â'r adroddiadau blaenorol a luniwyd gan yr awdurdod.  Mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen mireinio'r adroddiad ymhellach, gan gynnwys ystyried barn rhanddeiliaid, yng ngham nesaf ei ddatblygiad.

Ar gyfer yr ymweliad monitro hwn, lluniodd yr awdurdod adroddiad hunanarfarnu penodol ar gynnydd wrth fynd i'r afael â'r saith argymhelliad o arolygiad Estyn yn 2012.  At ei gilydd, mae'r adroddiad hwn yn cynnig golwg gywir ar gynnydd, gan arfarnu gwelliannau a hefyd nodi meysydd sydd angen sylw pellach.  Mae'r adroddiad hwn yn gyson i raddau helaeth â barnau Estyn fel y'u cyflwynir yn y llythyr hwn.

Mae arfarniadau o berfformiad addysg yn ymddangos mewn amrywiaeth o adroddiadau eraill fel adroddiadau i bwyllgorau craffu.  Mae ansawdd yr arfarnu yn yr adroddiadau hyn yn dda ac yn well o lawer nag mewn adroddiadau tebyg ar adeg yr

arolygiad blaenorol.  Yn llythyr yr Asesiad Gwella yn Nhachwedd 2013, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru, “mae Adolygiad Gwelliannau 2012/2013 yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella, ac mae’n mynegi ei farn yn glir mewn modd teg a chytbwys”.

**Y camau nesaf**

Dylai’r awdurdod barhau i weithio tuag at godi safonau yng nghyfnod allweddol 4 a nodi a bodloni’r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.  Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â’u gwaith gyda’r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Rwyf yn anfon copi o’r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc:  Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru